# Diweddariad Covid-19
# - Risg yn ymwneud â Phobl a Chynllunio wrth Gefn

*Gwybodaeth yn gywir am 12:00pm ar 27.03.2020*

- Adnabod meysydd sy'n peri risg ar y fferm
- Mynd ati'n weithredol i leihau risgiau'n ymwneud â phobl
- Gwneud cynlluniau ar gyfer prinder gweithwyr sylweddol ar y fferm

## Pwy yw'r bobl sydd mewn perygl a ble mae'r mannau trosglwyddo ar eich fferm?

- Gweithio'n agos yn gorfforol at eraill - parlwr godro, ystafelloedd staff
- Mannau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml - llyw'r tractor, handlenni drws y llaethdy
- Aelodau o'r tîm (a'r teulu) sydd mewn perygl - rhieni oedrannus sy'n dal i weithio ar y fferm, aelodau o'r teulu sy'n agored i niwed?
- Cyswllt gydag ymwelwyr o'r tu allan - tancer llaeth, gyrwyr lorïau bwyd a chontractwyr

## Beth allwch chi ei wneud i leihau'r risg i bobl ar y fferm?

- Atal pob ymwelydd allanol nad yw'n hanfodol
- Cynyddu gofynion hylendid personol y staff
- Darparu offer diogelu personol (PPE) ychwanegol e.e. menig godro, glanedydd dwylo, sebon
- Golchi neu ddiheintio mannau sy'n cael cyswllt rheolaidd neu unrhyw beth y mae ymwelwyr allanol yn ei gyffwrdd, e.e. llyw'r tractor, cyswllt y tanc llaeth, handlen drws y llaethdy
- Lleihau'r angen i weithio'n agos at bobl eraill lle bo'n bosibl e.e. a oes modd i un person odro hyd yn oed os mae'n cymryd mwy o amser?
- Lleihau cymysgu pobl yn ddiangen e.e. yr un staff yn gwneud y broses odro yn ei chyfanrwydd
- Os mae eich tîm yn ddigon mawr, a fyddai modd cynllunio'r rota i gadw 2 dîm ar wahân nad ydynt yn dod i gysylltiad â'i gilydd?
- Mynnwch eu bod yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth yn ymwneud ag ynysu os maen nhw neu rywun sy'n byw yn y cartref yn datblygu symptomau

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Gwnewch gynlluniau ar gyfer cyfnodau hir neu sylweddol o brinder llafur ar y fferm

- Aseswch y fferm i ddeall pa swyddi sy'n hanfodol a pha swyddi (os o gwbl) y byddai modd eu cwblhau yn llai aml e.e. a fyddai modd rhoi gwellt dan wartheg sych/lloeau ayb ddwywaith yr wythnos yn hytrach na theirgwaith?
- Gweler y nodyn ychwanegol ynglŷn ag effaith technegol y ffyrdd diwygiedig o weithio mewn perthynas â godro a bwydo.
- Sicrhewch fod gan y person sy'n gyfrifol am bob rhan o'r busnes weithdrefn sy'n nodi manylion am eu ffordd o weithio - yn ysgrifenedig, ar WhatsApp, gan ddefnyddio fideo i ddangos unrhyw beth sy'n anodd ei egluro.
- Os ydych chi eisoes yn brin o weithwyr, gyda staff sy'n aml yn mynd dros yr oriau gwaith statudol o 48 awr yr wythnos ar gyfartaledd, ystyriwch recriwtio staff ychwanegol NAWR!
    - o Mae'n amser da i recriwtio'r rhai heb unrhyw brofiad o'r diwydiant amaeth gyda nifer o'r rhai sy'n gweithio mewn diwydiannau tebyg allan o waith e.e. gweithwyr yn y sector lletygarwch
    - o Defnyddiwch Facebook/Twitter neu hysbysebwch ar Indeed
    - o Ystyriwch ddefnyddio cytundebau dim oriau neu dymor penodol

*Paratowyd gan Kite Consulting.*